**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DC/JMHSC/03150/25

Sara Moseley – Cadeirydd
Carl James – Prif Weithredwr Dros Dro
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

27 Ionawr 2026

Annwyl Sara a Carl,

Rwy'n anfon y llythyr hwn yn dilyn y Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus a gynhaliwyd gydag aelodau o Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar 15 Ionawr 2026. Diolch i chi a'ch timau am ddod i'r cyfarfod, ac am y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd cyn y cyfarfod; mae hwn yn rhan bwysig o gofnod y cyfarfod. Gallwch weld recordiad o'r cyfarfod yn **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre - 15 Ionawr 2026**.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu fy myfyrdodau o'r cyfarfod, a byddwn yn parhau i adolygu'r rhain yn ein cyfarfodydd rheolaidd. Hoffwn gydnabod ymrwymiad eich tîm a'r cynnydd a wnaed mewn meysydd ar draws portffolio eang o wasanaethau. Yn eich sylwadau agoriadol, fe wnaethoch bwysleisio rôl genedlaethol yr Ymddiriedolaeth ar draws gwasanaethau canser a gwaed arbenigol, gan gynnwys eich cyfraniad at therapïau datblygedig, ymchwil feddygol, a'ch rôl wrth ddatblygu a chefnogi'r gweithlu oncoleg nawr ac yn y dyfodol. Fe wnaethoch hefyd fyfyrio ar yr heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw yn ymwneud ag arweinyddiaeth sefydliadol, yn enwedig o ran llywodraethiant, newidiadau mewn arweinyddiaeth a datblygiadau mawr i wasanaethau, fel y ganolfan ganser newydd. Fe wnaethoch bwysleisio ymrwymiad y sefydliad i sicrhau partneriaethau cryf ar draws GIG Cymru, gan gydnabod y pwysau ar fyrddau iechyd sy'n comisiynu a'r angen am ddull gweithredu darbodus, allblyg a chydweithredol.

Fe wnaethoch nodi'r perfformiad cyfredol a'r blaengynlluniau ar gyfer gwasanaethau canser, gan dynnu sylw at sefyllfa sy'n gwella ym maes radiotherapi brys a radiotherapi a gynlluniwyd ac mewn therapïau gwrth-ganser systemig (SACT). Cydnabuwyd bod radiotherapi a gynlluniwyd a radiotherapi rheoli symptomau brys yn cyflawni'n is na safon 100% yr Ymddiriedolaeth, a'u bod yn feysydd ffocws ar gyfer gwella. Fe wnaethoch dynnu sylw at berfformiad cadarnhaol yn erbyn metrigau ansawdd gan gynnwys cyfraddau isel o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

digwyddiadau adroddadwy cenedlaethol; mae cyfraddau marwolaeth 30 diwrnod SACT yn ffafriol yn erbyn y meincnodau cenedlaethol; ac mae boddhad cyffredinol cleifion yn parhau i fod yn uchel.

Fel rhan o gynlluniau'r Ymddiriedolaeth i ateb y galw cynyddol ac achosion cynyddol gymhleth, fe wnaethoch ddisgrifio symud tuag at fodel aml-broffesiynol a arweinir gan feddygon, gyda chefnogaeth llwybrau asesu rhithwir (sy'n dileu oddeutu 30% o gysylltiadau cleifion allanol), defnyddio technoleg llais amgylchynol mewn clinigau, a datrysiad radiotherapi integredig wedi'i alluogi gan AI i symleiddio llwybrau a lleihau amseroedd aros.

Fe wnaethoch amlinellu'r gwaith i gefnogi cyflawni yn erbyn y llwybr lle'r amheuir canser, gan gynnwys y cynlluniau i weithredu llwybrau safonol ar draws y rhanbarth i gefnogi cyflawni'r llwybr lle'r amheuir canser. Y nod yw lleihau'r aros ar gyfer cydrannau amser aros y llwybr o 38 diwrnod i 24 diwrnod erbyn mis Mehefin 2027, ochr yn ochr â chymorth ymarferol ar gyfer gwasanaethau bregus mewn rhannau eraill o Gymru (gan gynnwys mewnbwn oncolegydd o bell a chydweithrediad rhanbarthol ar hyd coridor yr M4). Byddai'n ddefnyddiol pe gallech rannu'r trywydd a'r cerrig milltir ar gyfer y gwelliant hwn, gan gynnwys y cynlluniau ar gyfer trawsnewid y gweithlu a'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r model clinig rhithwir ac wedi'i alluogi gan AI.

Fe wnaethom drafod gweithio mewn partneriaeth gyda byrddau iechyd a'r Cyd-bwyllgor Comisiynu Cenedlaethol i sicrhau mabwysiadu technolegau a thriniaethau newydd a gymeradwywyd gan NICE yn amserol. O ran ymchwil a datblygu, fe wnaethoch chi osod strategaeth ddeng mlynedd sy'n rhychwantu cynllunio sy'n canolbwyntio ar y claf, ymchwil drosiannol sy'n cysylltu labordy a chlinig, a symud cynlluniedig tuag at gynnal cyfran uwch o dreialon a noddir yn fasnachol. Gwnaethom drafod nifer o dreialon gan gynnwys recriwtio yn y DU i'r astudiaeth enfawr mewn myeloma a chyflwyno gwrthgyrff deubenodol. Fe wnaethoch dynnu sylw at sut mae cyfranogiad mewn ymchwil yn adeiladu galluogrwydd, yn byrhau cylchoedd mabwysiadu ac yn gallu rhyddhau capasiti. Fe wnaethoch hefyd nodi eich bod yn bwriadu cyflwyno dull cerdyn sgorio cytbwys i gysoni cyfranogiad mewn ymchwil, perfformiad recriwtio a buddion ariannol mewn trefniadau rheoli perfformiad arferol.

Gan droi at Wasanaeth Gwaed Cymru, nododd y Bwrdd berfformiad a gwydnwch gweithredol cryf ar y cyfan. Roedd cyflenwadau o gelloedd coch yn gadarn ar y cyfan, gydag ychydig iawn o wastraff, er bod y cyflenwadau o waed O negatif wedi gostwng islaw'r trothwy tri diwrnod ar dri achlysur ym mis Medi 2025; cafodd hyn ei reoli trwy gyfarfodydd gwydnwch dyddiol ac ni chafwyd unrhyw effaith ar ddarpariaeth i ysbytai. Gwnaethom nodi gwelliannau mewn amseroedd cyflawni seroleg gwahaniaethol yn dilyn rhaglen wella gwasanaethau, amseroedd cyflawni cynenedigol rhagorol parhaus, a chynnydd sylweddol o ran recriwtio gwirfoddolwyr i Gofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru, gan gynnwys cynnydd amlwg mewn recriwtio o gymunedau ethnig heb gynrychiolaeth ddigonol.

Fe wnaethoch chi ddisgrifio'r model allgymorth dan arweiniad addysg mewn ysgolion a cholegau, twf llysgenhadon sy'n rhoddwyr a chynlluniau ar gyfer dull cyd-

gynhyrchu “lleisiau rhoddwyr”. O ran gwaed heintiedig, cadarnhaodd yr Ymddiriedolaeth ei bod yn mabwysiadu rôl arweiniol i Gymru drwy ymgorffori argymhellion, megis llywodraethiant cryfach a goruchwylio pwyllgor trallwyso'r ysbyty; dysgu ffurfiol drwy adrodd am beryglon difrifol o ran trallwyso (SHOT); Cylchlythyrau Iechyd Cymru ar drallwyso darbodus ac ar hyfforddiant; a datblygu hyfforddiant gorfodol ar gyfer meddygon preswyl a rhagnodwyr nad ydynt yn feddygon.

Fe wnaethoch chi nodi bod seilwaith digidol yn risg i'r Ymddiriedolaeth, gyda phryderon yn gysylltiedig â'r bwlch olrhain digidol ac fe wnaethoch dynnu sylw at yr angen am ddatrysiad cenedlaethol o'r dechrau i'r diwedd. Bydd system gyfrifiadurol y sefydliad gwaed a'r rhaglen System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) yn cefnogi hyn. Mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu cyflawni ar amser ac yn unol â'r gyllideb.

Mewn perthynas â Chanolfan Ganser newydd Felindre, rhoddodd y Bwrdd sicrwydd ynglŷn â’r cynnydd o ran y gwaith adeiladu ac ar y rhaglen barodrwydd. Fe wnaethoch chi ddisgrifio llywodraethiant drwy'r bwrdd prosiect a'ch pwyllgor craffu, ymgysylltu allanol drwy'r bwrdd strategaeth iechyd, a chomisiynu clinigol manwl a chynlluniau offer fesul cam (gan gynnwys mynediad â blaenoriaeth i gyflymu gosod a chomisiynu cyflymydd llinellol). Fe wnaethoch hefyd nodi trefniadau ar gyfer pontio gwasanaethau, hyfforddiant staff ac ymgyfarwyddo - gan gydnabod yr angen i “gyfuno” newidiadau i'r gwasanaeth â'r rhaglen adeiladu - a'ch bwriad i gomisiynu adolygiad parodrwydd allanol i “gicio teiars” y cynlluniau cyflawni. Fe wnaethoch chi ddisgrifio'r model gweithredu rheoli contract ar gyfer y consesiwn 25 mlynedd, gyda mecanwaith talu/diddymu clir a llwybrau uwchgyfeirio, a rhannu cyfrifoldebau rhwng rheoli cyfleusterau caled a meddal.

Yna fe wnaethom drafod llywodraethiant, diwylliant a gwydnwch sefydliadol. Fe wnaethoch chi gydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth gydlynol, medrus ac ymatebol a phwysigrwydd cefnogi eich gweithlu sy'n delio â newid. Fe wnaethoch chi amlinellu cynlluniau i adnewyddu strwythur y pwyllgor, cryfhau sianeli ar gyfer codi llais yn ddiogel a gweledededd arweinwyr, moderneiddio trefniadau llywodraethiant gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a sicrhau disgyblaeth ariannol gan ragweld sefyllfa adennill costau a phwyslais o'r newydd ar effeithlonrwydd a gwireddu buddion o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2026/29.

Fe wnaethoch chi ddisgrifio cynigion i greu pwyllgorau pwrpasol ar gyfer Pobl, Diwylliant ac Ymgysylltu, ac ar gyfer Cyllid, Perfformiad a Chynllunio, tra'n dwysau’r ffocws ar brofiad o fewn ansawdd a diogelwch, a chryfhau llywodraethiant yr Elusen. Roeddech chi'n agored am yr heriau a brofwyd o fewn y sefydliad, gan gynnwys cwynion dienw, a'r camau a gymerwyd i wrando ac ymateb drwy lwybrau annibynnol fel NHS Resolution at Work, y Coleg Nyrsio Brenhinol a dulliau codi llais yn ddiogel. Mae'r pwyslais ar arweinyddiaeth weladwy, mewnwelediad wedi'i driongli i'r gweithlu a llwybrau cliriach i godi pryderon yn ddull gweithredu cadarnhaol.

Drwy gydol y cyfarfod, fe wnaethoch chi a'ch cydweithwyr ar y Bwrdd dalu teyrnged i ymrwymiad, proffesiynoldeb a thosturi staff yr Ymddiriedolaeth. Mae'r enghreifftiau a rannwyd, fel timau clinigol yn oedi i gefnogi cleifion gofidus, nyrsys arbenigol yn arwain llwybrau therapi cymhleth, a thimau amlbroffesiynol yn mabwysiadu offer

digidol newydd, yn dangos diwylliant cryf sy'n canolbwyntio ar y claf. Roeddech o'r farn mai'r ymrwymiad hwn gan staff yw un o gryfderau mwyaf yr Ymddiriedolaeth o hyd, a'i fod yn hwylusydd hanfodol o ran moderneiddio gwasanaethau, rhagoriaeth ymchwil a phontio’n llwyddiannus i'r ganolfan ganser newydd.

Wrth grynhoi'r cyfarfod, pwysleisiwyd tair thema drawsbynciol a bydd y rhain yn parhau i fod yn sylfaen i’n hymgysylltiad â Felindre: esblygu ffyrdd o weithio i ateb y galw cynyddol a chyfleoedd technolegol; cyflawni'r cyfnod adeiladu a pharodrwydd Canolfan Ganser newydd Felindre i weithredu; a chryfhau llywodraethiant a diwylliant sefydliadol yn barhaus.

Diolch am eich ymgysylltiad parhaus a'ch ymrwymiad i wella gwasanaethau i bobl Cymru.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care